

ETHOLIAD Y CYNULLIAD 2016

Cymunedau llewyrchus er lles Cymru

Mae prospectws WCVA ar gyfer etholiad 2016 yn nodi cyfres o ofynion ar gyfer Llywodraeth Cymru newydd, a fydd, os y'u rhoddir ar waith, yn cryfhau cyfraniad y trydydd sector at nid yn unig drechu tloedi, ond gwella lles cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Ni all y llywodraeth yn gweithio ar ei phen ei hun fynd i'r afael â'r heriau sy'n wynebu Cymru: mae angen partneriaeth â thrydydd sector bywiog ac amrywiol.

Gofynnwn i'r llywodraeth newydd

Sicrhau **trydydd sector a gynhelir yn deg ac yn gynaliadwy yng Nghymru**, drwy'r canlynol:

- Cynnal mecanweithiau unigryw Cynllun y Trydydd Sector a'r Cod Ymarfer Ariannu gan felly alluogi'r sector i dyfu a ffynnu, ond hefyd edrych ar ble mae blaenoriaethau'r sector a'r llywodraeth yn cwrdd
- Defnyddio grantiau a chaffael yn ddeallus yn yr amgylchiadau cywir
- Ymestyn y rôl llwyddiannus y mae'r trydydd sector wedi'i chwarae yn cynnal rhaglenni ac amcanion Ewropeaidd
- Partneriaid statudol yn cydnabod cymunedau a'r trydydd sector ac yn buddsoddi ynddynt
- Adeiladu ar gynlluniau grant

Gofynnwn i'r llywodraeth newydd

Helpu i greu **cymunedau cryf a gweithgar**, drwy'r canlynol:

- Cynyddu nifer y gwirfoddolwyr a chymorth ar eu cyfer
- Cefnogi cymunedau a busnesau cymdeithasol i ddatblygu'n gynaliadwy
- Datblygu Trosglwyddiadau Asedau Cymunedol a helpu i alluogi mudiadau trydydd sector i reoli proses trosglwyddo ased yn llwyddiannus
- Parhau i weithio tuag at drechu tloedi ac anghydraddoldeb a chydabod rôl y trydydd sector i gyflawni hyn
- Parhau i hyrwyddo'r Gymraeg, y celfyddydau a diwylliant

Gofynnwn i'r llywodraeth newydd

Roi pobl yng nghanol ein gwasanaethau cyhoeddus, drwy'r canlynol:

- Buddsoddi mewn ymyrraeth ataliol a chynnar, gan roi pobl yn y canol wrth ddylunio a darparu a sicrhau bod gwasanaethau cyhoeddus yn canolbwyntio o ddifrif ar y dinesydd

- Gwneud y gorau o gymorth gan gymunedau i alluogi i wasanaethau gael eu darparu ar adeg pan fo pwrs y wlad dan straen
- Buddsoddi mewn ymgysylltu o ddifrif â phobl, eu cymunedau a mudiadau trydydd sector i ddatgloi eu potensial
- Croesawu modelau newydd i ddarparu ac ariannu gwasanaethau cyhoeddus
- Defnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 i arwain y ffordd ledled Cymru a'r tu hwnt

Gofynnwn i'r llywodraeth newydd

Helpu i greu **Cymru gyfartal**, drwy'r canlynol:

- Darparu adnoddau i fudiadau cydraddoldebau a hawliau dynol i gefnogi'r dinasyddion sydd wedi'u hallgáu fwyaf
- Cryfhau llais cydraddoldebau'r trydydd sector mewn penderfyniadau cynllunio a chomisiynu strategol
- Sicrhau prif-ffrydio materion cydraddoldebau ym mhob maes polisi ac wrth ddarparu gwasanaethau, yn enwedig wrth ddarparu gwasanaeth cyhoeddus ac ymgysylltu â'r cyhoedd
- Diogelu'r bobl fwyaf agored i niwed yn ein cymdeithas a chodi llais yn erbyn diddymu'r Ddeddf Hawliau Dynol

Gofynnwn i'r llywodraeth newydd

Gydweithio i **fynd i'r afael â'r newid yn yr hinsawdd**, drwy'r canlynol:

- Cynyddu cynlluniau cynhyrchu ynni ac ailgylchu dan berchnogaeth gymunedol fel rhan o'r economi sifil
- Gweithio gyda'r sector i annog a chefnogi mudiadau i wella eu harferion mewnol eu hunain i leihau eu hól troed carbon
- Gweithio gyda mudiadau a chefnogi mudiadau a all godi ymwybyddiaeth o ymddygiad a newid ymddygiad ymysg yr ystod ehangaf o grwpiau targed